# Urdd Gobaith Cymru
# Disgrifiad Swydd

Urdd

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd:** | Swyddog Datblygu Chwaraeon Caerdydd a'r Fro |
| **Yn atebol i'r:** | Cyfarwyddwr Chwaraeon Cenedlaethol |
| **Cyflog:** | Ar raddfa 7 Strwythur Cyflog yr Urdd £ 23,832 (Pwynt 1) hyd £27,628 (Pwynt 6). Penodir ar Bwynt 1 onibai fod profiad blaenorol yn denu un pwynt ychwanegol.<br><br>Mae'r swydd yn un parhaol |
| **Oriau gwaith:** | 35 awr yr wythnos. Oherwydd natur y swydd mae'n ofynnol i'r Swyddog weithio oriau oddi allan i oriau safonol swyddfa. Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn hyblyg yn y cyswllt hwn. |
| **Lleoliad:** | Gwersyll yr Urdd Caerdydd |
| **Gwyliau blynyddol:** | Caniateir 25 diwrnod o wyliau blynyddol ac wyth diwrnod wyliau cyhoeddus - y cyfnodau i'w pennu mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Chwaraeon Cenedlaethol. Bydd y gwyliau'n cynyddu i 28 diwrnod ar ôl pum mlynedd o wasanaeth ac yna i 33 diwrnod ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth. Bydd angen neilltuo tri diwrnod ar gyfer y cyfnod ar adeg y Nadolig a'r flwyddyn newydd. |
| **Cyfnod prawf:** | Bydd cyfnod prawf o chewch mis. |
| **Pensiwn:** | Bydd cyfle i ymuno â phensiwn mewnol yr Urdd ar unwaith. |
| **Teithio:** | Mae teithio yn rhan annatod o'r swydd, telir lwfans o 43c y filltir. Bydd angen meddu ar drwydded yrru a char er mwyn cyflawni'r swydd hon. |
| **Gwiriad GDG:** | Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) |
| **Archwiliad meddygol:** | Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a benodir mynd o dan archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol. |

**Dyletswyddau**

1. Bod yn gyfrifol am arolygu, datblygu a chyd gysylltu cynlluniau chwaraeon yr Urdd ar draws ardaloedd penodol. Nod Adran Chwaraeon Urdd Gobaith Cymru yw cynyddu cyfranogaeth plant a phobl ifanc mewn gweithgaredd chwaraeon cyson drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn dod a'r Gymraeg yn fyw iddynt.

2. Rheoli rhaglenni gwaith swyddogion prosiect chwaraeon a phrentis chwaraeon yr ardal. Rheoli a datblygu swyddogion prosiect chwaraeon a phrentis chwaraeon.

3. Creu cyswllt a chydweithio gyda chyrff llywodraethol chwaraeon, Uned Datblygu Chwaraeon yr Awdurdodau lleol, Prifysgolion a Cholegau Addysg Bellach er mwyn datblygu cynlluniau sy'n cyflawni targedau penodol yr Urdd a Chyngor Chwaraeon.

4. Creu cyswllt cryf gyda chynlluniau Cyngor Chwaraeon e.e. Rheolwyr Adrannau Chwaraeon, Staff AYP, Swyddogion 5 x 60 Campau'r Ddraig i gyrraedd targedau strategaeth gymunedol Chwaraeon Cymru.

5. Cydlynu a monitro cynlluniau hyfforddiant i arweinwyr chwaraeon ifanc. Ceir targed o hyfforddi 50 y flwyddyn i bob ardal. Datblygu cyfleoedd i arweinyddion gwirfoddol i ennill cymwysterau pellach

6. Sicrhau cefnogaeth i wirfoddolwyr i gynnal clybiau ar y lefel lleol. Gosodir targed o ran y nifer o glybiau y dylid eu sefydlu. Monitro datblygiad a pharhad y clybiau lleol.

7. Sicrhau gweithgaredd gwyliau yn yr ardaloedd. Ceir targed o gynnal 25 o ddyddiau o weithgareddau ym mhob ardal.

8. Sicrhau bod y gweithgareddau yn cael eu marchnata yn effeithiol drwy amrywiol ddulliau.

9. Cyfrifoldeb am sicrhau bod y gweithgareddau i gyd yn digwydd yn ddiogel ac i safon uchel.

10. Tiwtro ar gyrsiau hyfforddi lleol a phreswyl.

11. Monitro cyllideb chwaraeon yr ardal a sicrhau ffynonellau newydd o arian. Cyfrifol am godi targed ariannol i bob ardal ( targed ariannol wedi cadarnhau ar gychwyn y flwyddyn).

12. Bydd disgwyl i'r swyddog gyfrannu at lwyddiant gweithgareddau chwaraeon cenedlaethol hefyd.

13. Cofnodi a chasglu ystadegau am weithgaredd yr ardal a pharatoi adroddiadau ar gyfer y safle we. Sicrhau bod ap a gwefan yr Urdd yn cael eu cadw'n gyfredol yn yr ardal.

14. Anfon gwybodaeth am hyfforddwyr sydd yn medru hyfforddi trwy'r Gymraeg i'r gronfa ddata ganolog bob tymor.

15. Cyfrifol am lenwi ffurflenni grant ar gyfer prosiectau chwaraeon i'r ardaloedd.

16. Cyfrifol am brosiectau Cenedlaethol ar gyfer yr Adran.

**Gofynion**

- Dealltwriaeth ac ymrwymiad i amcanion Urdd Gobaith Cymru.
- Bydd angen meddu ar drwydded yrru a char er mwyn cyflawni'r swydd hon.
- Bydd cymhwyster yn y maes chwaraeon a hamdden o fantais.
- Byddai profiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc o fantais.
- Bydd profiad o hyfforddi o fantais.
- Bydd hi'n angenrheidiol gallu siarad ac ysgrifennu Cymraeg er mwyn cyflawni'r swydd hon.

Dylai unrhyw geisiadau ddangos yn glir sut mae unrhyw brofiad blaenorol, a sgiliau, yn cyfateb i'r anghenion a'r dyletswyddau a nodir yn y Disgrifiad Swydd.

Rhaid i geisiadau gyrraedd y Cyfarwyddwr Chwaraeon Cenedlaethol, Gary Lewis, gary@urdd.org erbyn 9yb, 4 Ionawr, 2016

Dyddiad cyfweliadau; 11 Ionawr, 2016.

Os hoffech sgwrs anffurfiol am y swyddi cyn ymgeisio, mae croeso i chi gysylltu a Gary Lewis, 02920 635686.